CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 2453 (Cy.237)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Ôl-16 Unigol) (Cymru) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Os bydd awdurdod addysg lleol yn anfon cais ysgrifenedig at gorff llywodraethu unrhyw ysgol a gynhelir gan yr awdurdod hwnnw ac os oes gan yr ysgol honno chweched dosbarth, mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu roi gwybodaeth i'r awdurdod am ddisgyblion chweched dosbarth yr ysgol. Caiff yr awdurdod ofyn am unrhyw wybodaeth y cyfeirir ati yn yr Atodlen. Rhaid i'r corff llywodraethu roi'r wybodaeth i'r awdurdod o fewn pedwar diwrnod ar ddeg.

Ar ben hynny, mae rheoliad 4 yn rhagnodi Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant yn berson y caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru roi gwybodaeth am ddisgyblion unigol iddo o dan adran 537A(4) o Ddeddf Addysg 1996.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 2453 (W.237)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Information About Post-16 Individual Pupils) (Wales) Regulations 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations require the governing body of any maintained school with a sixth form on receiving a written request from the local education authority by which the school is maintained to supply within fourteen days such of the information referred to in the Schedule as may be requested by the authority on sixth form pupils at the school.

Regulation 4 additionally prescribes the National Council for Training and Education for Wales as a person to whom the National Assembly for Wales may provide any individual pupil information under section 537A(4) of the Education Act 1996.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 2453 (Cy.237)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Ôl-16 Unigol) (Cymru) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *24 Medi 2003* |
| *Yn dod i rym* | *26 Medi 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 537A(1), (2), a (4) a 569(4) a (5) o Ddeddf Addysg 1996 (**a**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**b**):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Ôl-16 Unigol) (Cymru) 2003 a deuant i rym ar 26 Medi 2003.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â Chymru.

**Dehongli**

**2**. Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "Cofrestr" ("*Register*") yw'r gofrestr ddisgyblion a gedwir o dan adran 434 o Ddeddf 1996 ac yn unol â Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 1995(**c**);

ystyr "cyfeirnod gweithgaredd dysgu" ("*learning activity reference*") yw cyfuniad o rifau sydd ynghyd â llythyren yn cael eu dyrannu i gwrs astudiaeth neu weithgaredd dysgu arall ac sy'n benodol i'r cwrs hwnnw neu'r gweithgaredd dysgu hwnnw, ac a benderfynwyd gan Gyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant;

ystyr "Deddf 1996 ("*the 1996 Act*") yw Deddf Addysg 1996;

(a) 1996 p.56. Mewnosodwyd adran 537A gan Ddeddf Addysg 1997 (1997 p.44), adran 20, ac fe'i disodlwyd gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (1998 p.31), adran 140(1) ac Atodlen 30, paragraffau 57 a 153.

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Am ystyr "prescribed" a "regulations" *gweler* adran 579(1) o Ddeddf 1996.

(c) O.S. 1995/2089.

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 2453 (W.237)

# EDUCATION, WALES

## The Education (Information About Post-16 Individual Pupils) (Wales) Regulations 2003

| | |
|---|---|
| *Made* | *24th September 2003* |
| *Coming into force* | *26th September 2003* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 537A(1), (2) and (4) and 569(4) and (5) of the Education Act 1996(**a**) and now vested in the National Assembly for Wales(**b**):

**Name, commencement and application**

**1**.-(1) These Regulations are called the Education (Information About Post-16 Individual Pupils) (Wales) Regulations 2003 and come into force on 26th September 2003.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

**Interpretation**

**2**. In these Regulations-

"the 1996 Act" ("*Ddeddf 1996*") means the Education Act 1996;

"learning activity reference" ("*cyfeirnod gweithgaredd dysgu*") means a combination of numbers which together with a letter are allocated to a course of study or other learning activity and are particular to that course or learning activity, determined by the National Council for Training and Education for Wales;

"Register" ("*Cofrestr*") means the register of pupils kept under section 434 of the 1996 Act and in accordance with the Education (Pupil Registration) Regulations 1995(**c**);

"sixth form pupil" ("*disgybl chweched*

(a) 1996 c.56. Section 537A was inserted by the Education Act 1997 (1997 c.44), section 20, and substituted by the School Standards and Framework Act 1998 (1998 c.31), section 140(1) and Schedule 30, paragraphs 57 and 153.

(b) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). For the meanings of "prescribed" and "regulations" *see* section 579(1) of the 1996 Act.

(c) S.I. 1995/2089.

ystyr "disgybl chweched dosbarth" ("*sixth form pupil*") yw disgybl y caiff Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant dalu grant mewn perthynas â'i addysg i'r awdurdod addysg lleol o dan adran 36 o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**a**);

ystyr "rhif unigryw disgybl" ("*unique pupil number*") yw cyfuniad o rifau sydd ynghyd â llythyren neu lythrennau yn cael eu dyrannu i ddisgybl ac sy'n benodol i'r disgybl hwnnw, drwy ddefnyddio fformiwla a benderfynwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

**Ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol yn darparu gwybodaeth i'w hawdurdodau addysg lleol**

**3**. O fewn pedwar diwrnod ar ddeg ar ôl cael cais ysgrifenedig oddi wrth yr awdurdod addysg lleol sy'n cynnal ysgol, rhaid i'r corff llywodraethu ddarparu i'r awdurdod unrhyw wybodaeth y cyfeirir ati yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn ac y gofynnir amdani o ran bob disgybl chweched dosbarth sydd ar y Gofrestr ar y dyddiad y gyfeirir ato yn y cais.

**Personau Rhagnodedig**

**4**. At ddibenion adran 537A(4) o'r Ddeddf 1996 rhagnodir Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant yn berson y caiff Cynulliad Cenedlaethol Cymru ddarparu unrhyw wybodaeth am ddisgyblion unigol iddo.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**b**)

24 Medi 2003

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

*dosbarth*") means a pupil in respect of whose education the National Council for Training and Education for Wales may make a grant to the local education authority under section 36 of the Learning and Skills Act 2000(**a**); and

"unique pupil number" ("*rhif unigryw disgybl*") means a combination of numbers which together with a letter or letters are allocated to a pupil and are particular to that pupil, by use of a formula determined by the National Assembly for Wales.

**Provision of information by schools maintained by local education authorities to their local education authorities**

**3**. Within fourteen days of receiving a request in writing from the local education authority by which a school is maintained, the governing body must provide to the authority such of the information referred to in the Schedule to these Regulations as is so requested in respect of each sixth form pupil on the school's Register on the date specified in the request.

**Prescribed Persons**

**4**. For the purposes of section 537A(4) of the 1996 Act the National Council for Training and Education for Wales is prescribed as a person to whom the National Assembly for Wales may provide any individual pupil information.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**b**)

24th September 2003

*D.Elis-Thomas*

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 2000 p.21.

(b) 1998 p.38.

(a) 2000 c.21.

(b) 1998 c.38.

ATODLEN

Rheoliad 3

## DARPARU GWYBODAETH AM DDISGYBLION ÔL-16 UNIGOL

**1.**Yr wybodaeth a ganlyn am y disgybl -

(a) cyfenw, ac os oes gan y disgybl gyfenw blaenorol sy'n wybyddus i'r corff llywodraethu, y cyfenw blaenorol hwnnw;

(b) enw cyntaf, neu bob enw cyntaf os oes mwy nag un;

(c) enw canol, neu bob enw canol os oes mwy nag un;

(ch) rhyw;

(d) dyddiad geni;

(dd) rhif unigryw cyfredol, ac os bu gan yr ysgol rif unigryw disgybl blaenorol ar gyfer y disgybl hwnnw, y rhif blaenorol;

(e) grŵp ethnig;

(f) hunaniaeth genedlaethol;

(ff) dyddiad derbyn y disgybl i'r ysgol; ac

(g) grŵp blwyddyn Cwricwlwm Cenedlaethol y disgybl.

**2**. A yw'r disgybl yn ddisgybl cofrestredig mewn un ysgol neu mewn mwy nag un ysgol.

**3**. Cod post y cartref lle mae'r disgybl fel arfer yn preswylio.

**4**. A yw'r wybodaeth am grŵp ethnig y disgybl a ddarparwyd yn rhinwedd yr Atodlen hon yn cael ei darparu gan -

(a) y disgybl;

(b) rhiant;

(c) yr ysgol;

(ch) cyn ysgol; neu

(d) unrhyw ffynhonnell arall.

**5**. Pa mor rhugl yw'r disgybl yn y Gymraeg.

**6.** A yw'r disgybl yn siarad Cymraeg yn y cartref ai peidio, ac os yw ef, gyda phwy.

**7**. A yw'r disgybl yn astudio unrhyw bwnc, heblaw'r Gymraeg fel iaith gyntaf neu fel ail iaith, drwy gyfrwng y Gymraeg.

**8**. Os oes gan y disgybl anghenion addysgol arbennig, a oes ganddo ddatganiad o dan adran 324 o Ddeddf 1996 a'r ddarpariaeth AAA a wneir ar gyfer y disgybl yn unol â "Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru"(**a**), a gyhoeddwyd o dan adran 313 o Ddeddf 1996 ac a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2002.

(a) ISBN 0 7504 27574.

SCHEDULE

Regulation 3

## PROVISION OF INFORMATION ABOUT POST-16 INDIVIDUAL PUPILS

**1**. The following information about the pupil -

(a) surname, and where the pupil has a former surname which is known to the governing body that former surname;

(b) first name, or if more than one each first name;

(c) middle name, or if more than one each middle name;

(d) gender;

(e) date of birth;

(f) current unique pupil number, and, where the school has held a previous unique pupil number for that pupil, the previous number;

(g) ethnic group;

(h) national identity;

(i) date of admission to the school; and

(j) National Curriculum year group in which the pupil is taught.

**2**. Whether the pupil is a registered pupil at one school or more than one school.

**3**. The postcode of the home where the pupil normally resides.

**4**. Whether the information as to the pupil's ethnic group provided by virtue of this Schedule was provided by -

(a) the pupil;

(b) a parent;

(c) the school;

(d) a former school; or

(e) any other source.

**5**. The pupil's level of fluency in the Welsh language.

**6**. Whether or not the pupil speaks Welsh at home and, if so, with whom.

**7**. Whether the pupil studies any subject, other than Welsh as a first or second language, through the medium of Welsh.

**8**. Where the pupil has special educational needs, whether the pupil has a statement under section 324 of the 1996 Act and the SEN provision made for the pupil pursuant to "The Special Educational Needs Code of Practice for Wales"(**a**), which was issued under section 313 of the 1996 Act and came into force on 1st April 2002.

(a) ISBN 0 7504 27574.

**9**. A yw'r disgybl yn astudio tuag at Gymhwyster Bagloriaeth Cymru.

**10**. Teitl pob cwrs neu weithgaredd dysgu arall y mae'r disgybl yn ei astudio.

**11.** Mewn perthynas â phob cwrs neu weithgaredd dysgu arall y mae'r disgybl yn ei astudio -

(a) cyfeirnod y gweithgaredd dysgu;

(b) y dyddiad pan ddechreuodd y disgybl ddilyn y gweithgaredd dysgu;

(c) y dyddiad y disgwylir i'r gweithgaredd dysgu ddod i ben;

(ch) enw darparwr y gweithgaredd dysgu;

(d) a ddarperir y gweithgaredd dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy'r Saesneg, neu'n ddwyieithog drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg; ac

(dd) a oes gan y disgybl anhawster dysgu ac/neu anabledd ac os felly a yw'r disgybl yn ymgymryd â gweithgaredd dysgu ar wahân neu weithgaredd dysgu prif ffrwd.

**9**. Whether the pupil is studying towards a Welsh Baccalaureate Qualification.

**10**. The title of each course or other learning activity the pupil is studying.

**11**. In relation to each course or other learning activity the pupil is studying -

(a) the learning activity reference;

(b) the date the pupil commenced the learning activity;

(c) the expected end date of the learning activity;

(d) the identity of the provider of the learning activity;

(e) whether the learning activity is delivered through the medium of English, the medium of Welsh, or bilingually through the media of English and Welsh; and

(f) whether the pupil has a learning difficulty and/or a disability and if so whether the pupil is undertaking a discrete learning activity or a mainstream learning activity.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 2453 (Cy.237)

# ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Ddisgyblion Ôl-16 Unigol) (Cymru) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 2453 (W.237)

# EDUCATION, WALES

The Education (Information About Post-16 Individual Pupils) (Wales) Regulations 2003

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090784-1

9 780110 907840

**£2.00**

W169/10/03 ON